# DINESYDD
## GORFFENNAF-AWST

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984

RHIF 108


# ENNILL Y DYDD

DAETH BRWYDR HIR Dafydd a Beti Evans dros yr hawl i anfon eu merch Catrin i Ysgol Coed-y-Gof i derfyn llwyddiannus ar Fehefin 13. Penderfynodd tribiwnlys apêl Awdurdod Addysg De Morgannwg, a orchmynwyd i ail-wrando'r achos gan yr Uchel Lys, y cai Catrin, sy'n bump oed, ymuno â'i brawd Llyr sy'n saith.

'Roedd y teulu wedi gobeithio y byddai'r awdurdod addysg yn ildio i'w dymuniadau heb fynd i apêl. Ond ar ddydd Llun, Mehefin 11 gwrthodwyd y cais gan y pwyllgor derbyn a bu'n rhaid mynd i apêl unwaith eto.

Y tro hwn o leiaf galwyd tystion gan y Cyngor Sir, a holwyd Tom Evans, Prifathro Coed-y-Gof, am gyfnod hir. Ond ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i brofi honiad yr awdurdod y byddai caniatau mynediad i Catrin yn cael effaith andwyol ar addysg disgyblion eraill Coed-y-Gof.

Dylai'r Pwyllgor Derbyn a gyfarfu ar Fehefin 11 fod wedi ystyried ceisiadau gan 42 o blant sy'n dymuno mynychu Coed-y-Gof ym mis Medi, ond yr unig benderfyniad a wnaed oedd i wrthod cais Catrin Evans.

Gohiriwyd ystyried y gweddill am wythnos.
Cyfarfu'r Pwyllgor Derbyn eto ar Fehefin 18 ond unwaith eto gohiriwyd unrhyw benderfyniad ynghylch tynged y plant.
Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith yn rhagor ar Fehefin 27 a'r tro hwn penderfynwyd caniatau mynediad i 36 o blant i Goed-y-Gof - chwech yn fwy na'r mwyafswm gwreiddiol.
Ond gwrthodwyd ceisiadau gan bedwar o blant - pob un ohonynt yn bedair oed, ac felly'n rhy ifanc i wneud apel. Cafodd y rhain y dewis o fynd naill ai i Fro Eirwg gyda chludiant rhad ac am ddim mewn bws mini a fyddai'n teithio'n union-gyrchol i Lanrhymni, neu i Felin Gruffydd heb gludiant.
Ar waetha'r consesiwn felly parhau mae'r frwydr am ddarparaeth digonol. Ond wrth i'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 1985 agoshau efallai y gwelir agwedd yr awdurdod addysg yn newid.
Eisoes derbyniodd Michael Jones, Cadeirydd Pwyllgor Rhieni Coed-y-Gof lythyr gan y cynghorydd Emyr Currie Jones yn datgan ei gefnogaeth i'r egwyddor o sefydlu pumed Ysgol.

# CANT SYMUD



WRTH I GAPEL Heol y Crwys ddathlu ei ganmlwyddiant parhau mae'r helynt ynghylch dyfodol yr adeilad. Gwrthodwyd cais yr eglwys am gymorth ariannol ac mae'n bosibl mai symud i un o gapeli cyfagos y Presbyteriaid Saesneg fydd ei thynged.

TUDALEN 3.

# APÊL

MAE'N GAS GENNYM GODI'R MATER TRA BOD CYMRY CAERDYDD YN CAEL EI BLINGO YN CODI ARIAN I EISTEDDFOD YR URDD. OND ONI CHWYDDIR COFFRAU'R DINESYDD NI FYDD GAN Y BRIFDDINAS EI PHAPUR BRO ERBYN BYDD BYRTI BWS WEDI DOD I BEN EI DAITH. CYFRANIAD I'CH DOSBARTHWR AR UNWAITH.

# GOLYGYDDOL

Ers ei sefydlu ym 1980 bu Darlledu Caerdydd, CBC, mewn trafferthion ariannol parhaol. Dim ond ar ôl argyfwng eira Nadolig 1982 y cododd y gynulleidfa, ac felly'r incwm hysbysebu, i lefel derbyniol. A hyd yn oed wedyn 'roedd y ddyled i'r banc yn faich drom.

Syndod i rai felly oedd cyn cynllun yr Awdrudod Darlledu Annibynnol, yr IBA, i sefydlu gorsaf arall yng Ngwent. Os oedd CBC, gyda chynulleidfa posibl o 600,000 yn ei chael hi'n anodd i gael dau ben llinyn ynghyd, pa obaith oedd gan orsaf a fyddai'n gallu annelu at 300,00 yn unig?

Dengys yr ymchwil diweddaraf bod cynulleidfa CBC wedi gostwng o 42% i 22%, ac er bod gan Ddarlledu Gwent, GB, gynulleidfa o 36% mae problemau ariannol yr orsaf yn llawn cynddrwg os nad yn waeth.

Gwnaed cynlluniau i uno'r ddwy orsaf ond daeth y trafodaethau i ben heb gytundeb. Er mwyn goroesi rhaid i'r ddwy orsaf gwtogi. Mae GB eisoes wedi diswyddo staff ac mae'n fwriad gan CBC i ddiswyddo i fyny at 8 o'i gweithwyr a chwtogi ar oriau darlledu.

Deallwn mai'r bwriad yw cwtogi'r oriau a ddarlledir i 12 awr yn unig gan ddileu rhaglenni Cymraeg yn gyfangwbl. Cwtogwyd ar yr oriau Cymraeg unwaith yn barod pan sefydlwyd S4C a rhaid datgan yn glir nad yw dileu rhaglenni Cymraeg yn dderbyniol.

Yr unig ateb i broblemau CBC a GB yw uno a sefydlu un orsaf ar gyfer y De-Ddwyrain. Yn hytrach na chaniatau i CBC anwybyddu ei dyletswydd tuag at y Gymraeg dylai'r IBA sicrhau yn awr bod yr uno yn digwydd.

# Y CALENDR

GORFFENNAF

7 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch 1985, Garddwest yng ngerddi Coed-ar-Hyd-y-Glyn. 2.30 pm Pris: £2.50, Plant: 50c gan gynnwys bwyd ac adloniant.

14 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch. Cymuned Trelai - yn gysylltiedig â Gŵyl Trelai. Perfformiad gan y Grwp Gwerin "Yr Hwntws" yn Eglwys y Plwyf, Grand Avenue, Trelai am 2 o'r gloch. Mynediad £1. Yr elw i'r Eisteddfod. Tocynnau: Ffoniwch Caerdydd 591633.

Hefyd ar yr un dyddiad yn perfformio yn yr awyr agored yng Ngŵyl Trelai; dawnswyr Affrica Ekome, Côr Meibion Aberafon, Cwmni Pypedwyr, Medieval Players, Ffair Grefftau, Prosiect - "Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn Nhrelai", Cyngerdd Roc, Bandiau, Dawnswyr, Arddangosfeydd Celf a Chrefft a llu o weithgareddau eraill.

MEDI

8 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985, Twmpath Dawns (Parti Dawns Pontypridd) Neuadd Bentref Llanbedr y Fro.

22 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985, Cymuned Trelai. "Cynhaeaf Cymysg" Ffair yr Hydref yng Nghanolfan Hamdden Trelai. 2 o'r gloch. Nodwch y dyddiad nawr.

30 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985, Cymuned Rhiwbeina. Cymanfa Ganu yng Nghapel Beulah, Rhiwbeina.

# PYTIAU

Dymuna'r Dinesydd ddiolch o galon i Gymdeithas Canna - cwmni o ddysgwyr am eu haelioni i'r Dinesydd. Yn ddiweddar derbyniodd y Dinesydd siec am £100 ganddynt. I'r sawl sydd ganddo glust i glywed - dos a gwna dithau'r un modd.

Ar Ddydd Sadwrn ola Eisteddfod yr Urdd yn y Wyddgrug cafodd dau barti o Lan Tâf lwyddiant. Daeth y newydd yn rhy hwyr i'r rhifyn diwetha'. Ein llongyfarchiadau iddynt.

Camp go anghyffredin ddaeth i ran Nia Tudno Jones yn ddiweddar, sef ennill yr ail wobr mewn râs i geffylau a dynion ar draws gwlad. Jenny yw ceffyl Nia, ac fe gwbwlhaodd y ddau gwrs o 22 filltir a derbyn tancer gwydyr. Llongyfarchiadau.



Croeso i Sian Lloyd cyhoeddwraig newydd S4C i Gaerdydd, a'n dymuniadau gorau iddi.

# Y CRWYS AR GRWYDR?

WEDI BLYNYDDOEDD o drafod a dadlau ymddengs mai symud i un o gapeli cyfagos adran Seisnig Eglwys Bresbyteraidd Cymru fydd tynged Eglwys Heol y Crwys. Daw'r newydd yn sgil penderfyniad Bwrdd Ariannol BBC i wrthod cais yr Eglwys am gymorth ariannol sylweddol i wella'r adeilad presennol.

Ar ôl rhoi o'r neilltu'r cynlluniau gogyfer ag adeilad newydd - ar un adeg ystyriwyd y safle y codwyd Clwb Sboncen Lakeside arno'n ddiweddarach - penderfynwyd mai'r cynllun gorau fyddai atgyweirio Heol y Crwys. Cyflwynwyd cynlluniau i'r Eglwys a gwnaed cais i Fwrdd Ariannol yr enwad am dros £350,000.

Wrth wrthod y cais mae'r enwad yn awr wedi awgrymu i aelodau'r Crwys y dylent ystyried symud i un o gapeli Seisnig yr enwad yn yr ardal. Ceir dau ddewis amlwg: Eglwys Monthermer Road, nad yw nepell o'r capel presennol, ac Eglwys Plasnewydd sydd fymryn ymhellach, oddiar Heol Albany.

Dadl yr Eglwys Bresbyteraidd yn ôl pob tebyg yw mai ffolineb fyddai gwario'n helaeth ar adnewyddu Heol y Crwys pan fo gan yr enwad ddwy eglwys arall gerllaw y gellid yn rhwydd eu huno. Cynulleidfaoedd cymharol fechan sydd gan y ddwy eglwys ar hyn o bryd.

Ac yn yr hinsawdd grefyddol ac economaidd bresennol cred rhai ei fod yn bur debyg y bydd i'r Eglwys Bresbyteraidd fynnu cydymffurfiad â'i dyheadau'i hun.

Cafodd yr enwad gyfle i gloriannu'r sefyllfa pan gynhaliwyd y Sasiwn yn Heol y Crwys ganol fis Mai. Ac er i'r Parch Wynne Edwards, Tregaron, yn ei adolygiad yn Y Goleuad ddatgan: '... ei bod yn alwad arnom fel Cyfundeb i roi ystyriaeth ddifrifol i'r adeilad yn Heol y Crwys, a sicrhau ym Mhrifddinas ein cenedl adeilad na fydd arnom gywilydd i'w arddel', gwnaeth arweinwyr y Cyfundeb hi'n amlwg bod gofyn am £350,000 a mwy yn disgwyl gormod.




Eglwys Plasnewydd

Un peth sy'n sicr, sef y bydd rhaid gwneud rhywbeth a'i wneud ar frys.

Does dim amheuaeth bod yr adeilad wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd. Yn wir, yn ystod y Sasiwn bu'n rhaid dibynnu ar gymorth Eglwys Minny Street gan nad oedd cegin, toiledau ac ysgoldy'r Crwys yn ffit i'w defnyddio.

Cafwyd un awgrym go radical gan y Parch T.J. Davies mewn llythyr agored at aelodau'r Crwys a Minny Street pan awgrymodd y dylai'r ddwy eglwys uno. 'Roedd hynny'n rhy radical i'w ystyried, tybed beth fydd tynged yr awgrym diweddaraf?



Eglwys Monthermer Road




# LLYTHYRAU

### TAITH AWR?

Annwyl Olygydd,

Parthed eich erthygl yn "Y Dinesydd" rhifyn Mehefin ynglyn â brwydr Mr D. Evans ag Awdurdod Addysg De Morgannwg, mi sonioch y byddai "rhagor o blant yn gorfod wynebu taith awr i gyrraedd yr Ysgol" - cyfeiriad at y gred boblogaidd ei bod yn awr o daith o Dreganna i Fro Eirwg.

Beth bynnag fo'r gred honno, y gwir amdani yw mai 35 munud fan bella, y cymer y daith o Dreganna (Heol yr Eglwys Gadeiriol) i Fro Eirwg ac, yn sgil ad-drefnu, y bydd hyn yn debycach i hanner awr o fis Medi ymlaen.

Yn Gywir,

ELFAN W. JONES,
Prifathro Ysgol
Bro Eirwg.

---

Gol: Ynghyd a'r llythyr uchod derbyniwyd nodyn gan Elfan Jones yn datgan nad oedd yn barod i ddosbarthu rhifyn Mehefin o'r Dinesydd yn Ysgol Bro Eirwg.




---

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau at rifyn Medi at Aled Islwyn, 139 Fairwood Rd., Llandaf Caerdydd erbyn 23ain Awst.

Annwyl Olygydd,

Canmlwyddiant yr Achos yn Heol-y-Crwys, Caerdydd.
1884 - 1984.

Fel rhan o'r dathliadau fe gyhoeddir cyfrol arbennig yn ystod yr hydref eleni, cyfrol (fe obeithir) a fydd yn apelio at holl garedigion yr achos p'le bynnag maent yn byw ar hyn o bryd. O fewn tua 200 a mwy o dudalennau trafodir gwahanol agweddau ar hanes yr achos yn Cathays o 1884 ymlaen hyd at y dyddiau presennol. Bryd hynny yr agorodd eglwys Horeb ei drysau am y tro cyntaf. Datblygodd yr achos mewn cyfnod cyffrous yn hanes cymdeithasol ac economaidd y dref a cheisir gosod y datblygiadau o fewn cyd-destun y cyfnewidiadau pwysig a ddigwyddodd ym mlynyddoedd olaf y ganrif ddiwethaf.

Argreffir y gyfrol gan Wasg Pantycelyn a chynhwysir ynddi gyflenwad da ac amrywiol o luniau. Gellir archebu copi clawr caled (£5) neu glawr meddal (£3 os archebir cyn i'r gyfrol ymddangos a £3.50 wedi hynny). Bydd tâl cludiant (50c) yn ychwanegol os archebir gan rai sy'n byw y tu allan i Gaerdydd a'r cyffiniau.

Os carech archebu copi a fyddech garediced ag anfon y tâl priodol (gyda 50c yn ychwanegol os bydd angen) i mi ynghyd ag enw a chyfeiriad llawn gynted â bo modd. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Eglwys Heol-y-Crwys, Caerdydd'.

Diolch yn Fawr,

Yn bur,

J. GWYNFOR JONES.
(GOLYGYDD).

Annwyl Olygydd,

Gofynnwyd i mi olygu cyfrol ar Jennie Eirian Davies i'w chyhoeddi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1985.

Ar wahân i erthyglau unigol, yr wyf yn awyddus iawn i gynnwys yn y gyfrol unrhyw atgof neu stori ohoni mewn Eisteddfod, ar lwyfan neu mewn sgwrs. Os yw yn anhwylus anfon atgof o'r fath ar bapur, buaswn yn falch iawn o'i recordio ar dâp. 'Rwy'n chwilio am y llon a'r lleddf ac yn awyddus i gael y darlun mwyaf cyflawn posibl o'r fenyw eithriadol hon.

Yr oedd Jennie Eirian hefyd yn llythyru yn ofalus. Buaswn yn gwerthfawrogi unrhyw lythyr o'i heiddo a fedrai fod o ddiddordeb.

Yn ddiolchgar,

GWYN ERFYL,
Pen-y-Garth,
St. Meugan,
Rhuthun,
Clwyd.

Rhif ffôn: Rhuthun 2236.

---

68 Bishops Road,
Yr Eglwys Newydd,
CAERDYDD.
Ffôn: 610757.

5 Mehefin, 1984.

Annwyl Olygydd,

Yr wyf wedi cael swydd yng Nghaernarfon ac yn gwerthu fy nhŷ yma yn Bishop's Road.

Gan fod Bishop's Road mor hwylus i Ysgol Melin Gruffydd ac i Ysgol Glantaf fel ei gilydd, tybed fyddai darllenwyr 'Y Dinesydd' â diddordeb mewn ei brynu?

Mae ganddo 4 llofft, 3 'stafell fyw, gwres canolog nwy, a phopeth mewn cyflwr ardderchog.

Yr eiddoch yn gywir,

JULIA LATHAM.

## COLOFN
### Shân Emlyn

Dwi 'di bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn 'sgwennu amryw byd o bytia at wahanol alwadau, ac erbyn troi i'r dudalen wag yma, mae'n rhaid i mi gyfadde mod i'n hesb o syniadau. Mae'r wythnosau a'r misoedd eleni fel pe bae nhw'n hedfan yn llawer cynt nag oedden nhw. Does dim amser i fyfyrio a datblygu syniadau. Arwydd sicr fy mod yn ganol oed mae'n rhaid.

Ers blynyddoedd bellach mae fy mlwyddyn i wedi'i rhannu fel hyn - Dolig, Steddfod yr Urdd, Wimbledon, Steddfod Llangollen, Y Genedlaethol, gwyliau, yr Ŵyl Gerdd Dant a dyna hi yn Ddolig drachefn. Mi fyddwn i'n cael amser i edrych ymlaen yn eiddgar at yr achlysuron yma, ond eleni rywsut mae pob un yn dod ar 'y nghefn i cyn pryd.

Yn ddiweddar bum yn sgwrsio â Gwyn Erfyl ac yntau'n deud y drefn mod i'n mynd yn rhy atgofus ac yn edrych yn ôl yn barhaus - clefyd y canol oed medda fo. Rhaid trio mendio felly ond oes, ac ymwrthod â'r clefyd hwnnw? Mae blwyddyn brysur iawn o'n blaenau i gyd, i sicrhau bod Eisteddfod yr Urdd yn y Brifddinas yn llwyddiannus. Fe osododd Yr Wyddgrug safon eithriadol o uchel inni ymgyrraedd ato.
Mi fyddwn i gyd wrthi fel slecs yn codi arian, a dichon y cyrrhaeddwn y nôd ariannol. Ein camp fydd creu awyrgylch a pharatoi aelwyd gynnes i groesawu'r Ŵyl. Mae'n fwriad gan Y Dinesydd gyfrannu at y croeso hwnnw. Ein bwriad yw dod â rhifyn arbennig allan ar gyfer yr Ŵyl yn cynnwys atodiad i blant efo Byrti Bws yn ganolbwynt iddo.

# YR AGORIAD

Dau gant a deng mlynedd yn ôl, fe benderfynodd y bobl yn y "Trefedigaethau" Prydeinig ar ochr arall yr Iwerydd i ddatgan eu hawliau. Dwy flynedd wedyn, sefydlon nhw eu hannibyniaeth wrth ysgrifennu datganiad o'r ffaith. Un o'r awduronedd y Cymro-Americanwr, Thomas Jefferson, wrth gwrs.

Gan taw Gorffennaf ydy mis mwyaf arbennig y flwyddyn i'r Americanwyr, 'rwy'n ysgrifennu am rai ffeithiau sydd ddim yn wybodaeth cyffredinol. Mae cryn dipyn o chwedloniaeth yn cael ei dderbyn gan Americanwyr. Er enghraifft, nid te oedd y broblem ond y ffaith nad oedd y Senedd yn Llundain yn barod, heb godi treth, i amddiffyn y gwladychwyr oedd yn symud yn bellach ac yn bellach tua'r gorllewin. Pobl symudiadol ydy'r Americanwyr a doedden nhw ddim yn fodlon aros ar arfordir y dwyrain am byth yn disgwyl i Sior III benderfynu cynnal eu hawliau wrth iddo godi'r Ddeddf Stamp annemocrataidd. Codwyd y dreth a boddwyd y te. (A dyna'r rheswm dydyn ni ddim yn yfed yr hen stwff gwan 'na!)

Ar ôl hynny, daeth milwyr i Massachusetts, atalwyd masnach yn Boston a phenodwyd y Cadfridog Thomas Gage fel llywodraethwr. Doedd neb yn y trefedigaethau eraill yn fodlon wynebu newidiadau fel rhain heb gynrychiolaeth ac felly fe sefydlodd y Senedd Cyfandirol eu hawliau eu hunain. Ateb Sior a'r Senedd oedd diddymu'r llywodraethau lleol ym 1775.

Hyd hyn roedd yr Americanwyr yn meddwl am eu hunain fel Prydeinwyr gyda'r un hawliau a'u teuluoedd oedd yn dal i fyw yn y gwledydd Prydain. Ac roedd yn beil i mewn i'r Rhyfel am Annibyniaeth cyn iddynt ddechrau gweld y trefedigaethau fel unrhywbeth tebyg i genedl. Daeth diwedd y rhyfel ym 1781 a gyda fe, derbyniwyd yr Erthyglau Uno, saith mlynedd ar ôl iddynt gael eu hysgrifennu. Aeth sawl blwyddyn arall heibio cyn i'r genedl Americanaidd geulo. 'Roedd cyfle arbennig nawr i greu llywodraeth allan o ddim byd, yn lle adeiladu ar ben hen sylfaeni cyn iddynt bwdru. Gwnaeth yr Americanwyr cyntaf eu gwaith yn iawn, yna'n ddiweddarach, defnyddiodd llywodraethau Canada ac Awstralia Gyfansoddiad yr Unol Daleithiau fel sylfaen i'w llywodraethau newydd.
Yn Nŷ'r Cynrychiolwyr, mae "PR" wedi bod yn gweithio ers ei sefydlu heb y drafferth fyddai'r Pleidiau Llafur a Thoriaid yn bygwth fyddai'n digwydd yma. Mewn gwirionedd, sefydlwyd yr U.D.A. ar yr egwyddor o un person un pleidlais achos cafodd yr Americanwyr ddigon o drethi heb gynrychiolaeth ac hefyd mae ganddynt yr hawl i newid y gyfraith drwy dugel os oes digon ohonynt yn anfodlon.

Mae pleidleisio yn hollbwysig yn America. Ym mis Tachwedd byddwn yn dewis ein Harlywydd nesaf ac os nad ydy'r Arlywydd yn ein plesio, rydyn ni'n gallu cwyno am bedair blynedd arall! A oes yr un hawl gan y bobl yn Ewrop i bleidleisio dros yr Aelodau Senedd Ewropeaidd? Yn ôl nifer y pleidleiswyr, mae'n rhaid i'r llall dderbyn penderfyniad y tua phymtheg y cant sydd wedi pleidleisio dros yr enillwyr.

GEIRFA: trefedigaeth, colony
gwladychwr, settler

# PYTIAU

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Rhisiart Arwel ar y tant newydd i ymuno â'r teulu, sef mab bychan.

---

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr. John Rees, athro hanes Glan Taf ar ei brofedigaeth o golli ei dad.

---

Llawenydd mawr i holl ddarllenwyr Y Dinesydd oedd clywed llais Ruth Parry yn ôl ar y radio - yn fywiog ac yn iach ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

---

Chwith gan ddisgyblion ac athrawon Glan Taf a phawb sy'n ei hadnabod fydd colli Margaret Parry. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

---

Dymunwn yn dda i Judith Jones yn ei swydd newydd yn Ysgol Glan Taf.

---

Dymunwn yn dda i Peggy ac Emrys Wyn Jones sy'n ein gadael i ddychwelyd i Aberystwyth ar ôl arhosiad byr yn ein mysg. Dymunwn y gorau i'r ddau yn eu cartref newydd ac i Emrys Wyn Jones yn ei swydd fel Cofrestrydd Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth.

---

Y mae Raymond Edwards, prifathro Coleg Cerdd a Drama Cymru o'r dechrau yn ymddeol yr haf yma, a dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

Dewch i fwynhau noson yn Y Fro!

GWENNOL GORFFENNAF

yn

ALLT Y WENNOL,
CROES YR ALLT,
LLANBEDR Y FRO.

(trwy garedigrwydd Michael ac Ethni Jones)
Mynediad: £2.50
NOS SADWRN, 21 GORFFENNAF

am 8 o'r gloch

Yr elw i Gronfa'r Dinesydd.

Llongyfarchiadau i'r Dr. J. Geraint Jenkins, Curadur yr Amgueddfa Diwydiant a Môr ar ei benodi'n Llywydd Cymdeithas Astudiaethau Gwerin Gwledydd Prydain am y tair blynedd nesaf. Yn ddiweddar hefyd fe benodwyd y Dr. Jenkins yn Gomisynwr Ei Mawrhydi dros Henebion Cymru.

---

AR OSOD: 30m o'r Eisteddfod. Capel Bangor ger Aberystwyth. Tŷ mewn dau fflat. 4/8 ystafell wely. 100 punt yr un fflat am wythnos yr Eisteddfod. Telerau am wythnosau eraill. Ffôn: Caerdydd 566436 - Evans.

---

DEINIOL - Yn Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd ar Fehefin 18fed, ganwyd Trystan Gruffydd i Rhoswen ac Alcwyn - brawd i Prys Gweirydd. Diolch am bob gofal caredig.

---

**Medi:**

23 Ffair Hydref yn Ysgol Glantaf o dan ofal Ffrindiau'r Triban.

28 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch, Cymuned Ystum Taf. TWMPATH DAWNS gyda Gwilym Roberts yn Ysgol Glantaf, 8 o'r gloch. Swper a Bar. Pris mynediad: £1.50

29 Capel Minny Street. Cyfarfodydd Sefydlu'r Parchedig Eifion Powell

---

Y CALENDR - Cysyllter â LYNN JONES, (562816)

# CYNLLW

## CYNLLWYN PWY?

Mae'r heddlu byth a hefyd yn y newyddion y dyddiau hyn. Yn ystod streic y glowyr, mae llawer wedi amau p'run ai grym gwrthrychol yn pledio achos cyfraith a threfn yw'r heddlu, neu ai amddiffynwyr Llywodraeth Thatcher yn erbyn bygythiad y glowyr.

Ers i'r Ceidwadwyr ddod i rym ym mis Mai 1979, mae'r heddlu wedi cael eu trin fel elite. Mae eu cyflog wedi cynyddu'n fwy na'r un sector arall mewn cymdeithas. A maent wedi diosg eu mantell fel bobl sy'n neis at blant bach a cwn. Yn lle hynny ddaeth eu geriach er atal terfysg - y gynnau dwr.

Mae'r ddau lyfr yma'n codi'r un cwestiynau am ddulliau'r heddlu o weithredu. A'r cwestiwn fwyaf sylfaenol a ofynnir gan y ddau yw - a yw'r heddlu yn atebol o gwbl?

Mae'r adroddiad "Political Policing" wedi'i baratoi gan bwyllgor o dri dan gadeiryddiaeth cyfreithiwr Llafur, yr Arglwydd Gifford. Mae'n ganlyniad ymchwiliad cyhoeddus answyddogol fis Mawrth diwethaf. Fe'i sefydlwyd yn dilyn yr achos ffrwydron yng Nghaerdydd fis Hydref diwethaf pan gafwyd pedwar o'r diffinyddion yn ddi-euog o'r holl gyhuddiadau yn eu erbyn.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad fod yr heddlu wedi ceisio awgrymu mai Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Feirionnydd a Nant Conwy oedd wrth wraidd yr ymgyrch ffrwydron yn erbyn targedau oedd yn cynnwys swyddfeydd y Toriaid, a chartref Nicholas Edwards.

Mae pwyllgor Gifford wedi'u argyhoeddi gan y tystiolaeth bod tapio ffôn wedi digwydd ar raddfa helaeth yng Nghymru yn erbyn cenedlaetholwyr ac undebwyr. Ac yn ei sylwadau wrth lansio'r llyfryn, honnodd yr Arglwydd Gifford bod ffoniau aelodau Undeb y Glowyr yn cael eu tapio yn ystod y streic bresennol.

# YN PWY?
## CYNLLWYN PWY?

Gwneir 50 o argymhellion yn yr adroddiad. Ymhlith y pwysicaf mae dileu'r 'Gangen Arbennig' y 'Special Branch'. Does dim statws i'r corff hwn dan y gyfraith, meddir. "Rydym yn ystyried ei fodolaeth yn wrthun, a buasem am weld dileu corff sydd wedi ei sefydlu er mwyn edrych am weithgarwch sy'n tanseilio'r wladwriaeth. "Y gair Saesneg yw 'subversive', gair amwys ynddo'i hun.

Gelwir hefyd am Ombudsman i'r heddlu er mwyn archwilio i gwynion; diwedd i dapio ffoniau; diwedd ar ddefnydd yr heddlu o "agent provocateurs; ail edrych ar y sustem fechniaeth, a dileu'r Mesur Heddlu sydd ar hyn o bryd yn cael ei drafod yn y Senedd ac a fydd yn cyfreithloni rai dulliau a ddefnyddir gan yr heddlu ond sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

Ond pa effaith gaiff y llifeiriant yma o eiriau? Mae'r cyhoeddusrwydd eang sydd weid ei roi i'r ymchwiliad a'r adroddiad wedi gwylltio Heddlu De Cymru'n gacwn, yn ôl yr hyn a ddeallwn. Mae ymateb y Prif Gwnstabl, fel y gellid disgwyl, yn llai na brwd.

Mae'r adroddiad eisoes wedi'i feirniadu am fod yn 'bias', a bod aelodau'r pwyllgor yn wrth-heddlu ac asgell-chwith. Mae'n anochel fod honiadau tebyg yn cael eu gwneud. Er gwaethaf cywirdeb a gonestrwydd y tri aelod - Yr Arglwydd Gifford, Dr. John Davies o Goleg Aberystwyth a Tony Richards cadeirydd y blaid Lafur yng Nghaerdydd - mae'n rhy hawdd i'r Western Mail a'r heddlu daflu sen ar ddilysrwydd yr adroddiad gan amau cymhellion gwleidyddol yr adroddiad yn hytrach na chymryd sylw o gynnwys adroddiad sy'n sylweddol ac yn drylwyr.

Mae llyfr John Osmond - 'Police Conspiracy' yn canolbwyntio ar yr achos ffrwydron yng Nghaerdydd



**Ceidwaid yr hedd? Y Ditectif Prif Arolygydd Don Carsley, Pennaeth CID De Cymru, a'i ddirpwy, y Ditectif Arolygydd Ray Hill.**

**LLUN: Martin W. Roberts.**

fis Tachwedd ddiwethaf, yn erbyn aelodau'r Mudiad Gweriniaethol. Mae'n adroddiad dadlennol sy'n roi cefndir a hynt yr achos, ond mae gwerth mwyaf y llyfr yn y ffordd yr ymdrinir â dulliau'r heddlu yn ystod yr achos.

Fe gostiodd yr achos mwy na miliwn o bunnoedd. Ac yn ystod deg wythnos yr achos, daeth yn glir bod yr heddlu wedi defnyddio dulliau amheus ar y naw er mwyn cael datrys dirgelwch fu'n eu poeni dros gyfnod o ddwy flynedd. Dywedodd y barnwr wrth y rheithgor ar ôl gwrando ar y tystiolaeth byddai rhaid iddynt ddewis rhwng gonestrwydd yr heddlu a gonestrwydd y ddiffinyddion; "The central decision you have to make is as to the honesty of the witnesses .. The main contest is between the police and the defendants". Ymddiried yn y diffinyddion wnaeth y rheithgor.

Mae llyfr Osmond yn codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â gonestrwydd yr heddlu a phriodoldeb defnyddio'r ddeddf cynllwynio er mwyn rhwydo cymnifer o bobl ag sydd modd.

Ond calon y llyfr yw'r drasiedi bersonol ym mywydau'r rhai hynny ddioddefodd fwyaf yn ystod yr achos. Cadwyd chwech ohonynt yn y ddalfa am dri mis; dau ohonynt am gyfnod o naw mis. Bu farw tad un ohonynt ychydig fisoedd ar ôl yr achos, wedi'i lethu gan y straen fu arno yn ystod y cyfnod hwn.

Yn dilyn yr achos, comisiynwyd adroddiad gan heddlu De Cymru ar yr achos. Mae'r adroddiad, a baratowyd gan Ddirprwy Prif Gwnstabl Glannau Merswy, Peter Rawlinson, bellach wedi'i gwblhau ac wedi'i gyflwyno i Heddlu De Cymru. Mae adroddiad arall wedi'i ddanfon at Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ynglŷn ag ymddygiad yr heddlu yn ystod y cyfnod cyn yr achos. Ond o brofiad y blynyddoedd diwethaf, mae'n amheus os weithredir ar feirniadaethau yr adroddiadau hyn.

Mae'r ddau lyfr yma wedi'u sgwennu oherwydd y pryder cynyddol nad yw'n heddlu yn atebol i'r cyhoedd. Mae ymyrraeth fwy fwy amlwg yr heddlu mewn streiciau, ac mewn gweithgarwch cyrff fel yr Ymgyrch Di-arfogi Niwcliar yn ddigon i godi'r cwestiwn sylfaenol - heddlu pwy yw heddlu De Cymru?

**Police Conspiracy? John Osmond**
**Y Lolfa £2.95**

**Political Policing in Wales**
**Ymgyrch Cymru Dros Hawliau Sifil a Gwleidyddol. £1.50 & 35c cludiant.**

# 'STEDDFOD YR URDD

Bu stondin Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Cylch yn brysur o fore tan nos ar faes Eisteddfod Yr Wyddgrug.

Ers pan agorwyd y stondin am y tro cyntaf fore Mawrth, prin y cafodd y criw fu'n rhedeg y siop a'r atyniadau eraill unrhyw seibiant.

Yn ogystal â gwerthu llawer iawn o nwyddau'r eisteddfod, trefnwyd cystadleuaeth gwneud cartŵn ar y thema, 'Byrti Bws', dangoswyd rhaglen arbennig 'Stori Sbri' HTV Cymru ar Byrti Bws, a trefnwyd arddangosfa yn y stondin.

Bu Byrti a'i ffrindiau, Mistar Urdd a Pen Gwyn yn diddanu'r plant lleia' fu'n galw heibio'r stondin a rhai o blant Caerdydd yn chwysu wrth chwarae rhan y tri chymeriad mewn gwisgoedd fuasai'n mwy addas i dywydd oer na haul yr Wyddgrug.

## TANC-IW!



Dyma Mari Elin a Siôn yn arddangos Byrti Bws ar eu siwmperi newydd.

Peidiwch â cholli'r bws. Archebwch ar unwaith. Unrhyw liw; unrhyw faint Prisiau o £4. (Tank Top - plentyn) i £9. (Siwmper oedolyn). Ffoniwch 891968 neu 33473

## HYS-BWS

HEI HYWEL GWYNFRYN - BE' TI'N GALW BWS BUDR?

Cafwyd cystadleuaeth frwd ym mhabell Byrti Bws ar faes Eisteddfod Yr Wyddgrug, gyda Chrys T i'r cyfraniad gorau.

Gofynnodd Paul a Sarah, 'Pa fws sy'n glanhau? - BYRTI BRWSH.

'SHYRTI BWS' sy'n gwisgo crys T, meddai Matthew.

Pa fws sydd ar falŵn - BYRSTI BWS.

Roedd amryw i fws yn 'BWSNESU' a chafwyd nifer o FWS-BIS hefyd.

Pa fws sy'n byw ar y fferm? - BWSTACH.

Yn yr ail ddosbarth ys dywed Islwyn 'Bus' Jones mae dwy chwaer Byrti - GYRTI BWS a'r athrawes, SYLA-BWS.

Pwy yw'r gorau am gusannu? - BYRTI SWS WRTH GWRS; A'r bws yn canu ffliwt y tu allan i'r Urddgrug oedd - BWSGAR

Mae 3 yn y dosbarth cyntaf - Dau gan Andrew Williams, Penarth:
Pwy yw'r bws gorau am dorri gwynt? - DEWI BWS
Yn ail agos - Pwy oedd darganfyddwr cyntaf y bws? - COLUMBWS

Ond yn gyntaf, pell,

Pa fws sydd yn teithio dan dŵr? - OCTOBWS.

Llongyfarchiadau i Arwel Owen Davies, Cyffylliog, Rhuthun. Mae crys T ar ei ffordd iddo.

Gyda llaw enw'r bws budr ydi 'DYRTI BWS'!

**£80 I'R URDD.**

Daeth tymor llwyddiannus Merched y Wawr Cangen y Garth i ben Nos Iau, Mai 10fed yn Neuadd y Pentref Pentyrch gyda Noson Goffi a stondinnau amrywiol. Gwnaethpwyd £80 o elw.

ELW DAWNS YR URDD - £1,800

NOSON 'AR LAN Y MÔR'

yn Yr Amgueddfa Diwydiant a Môr

Nos Iau, 12fed Gorffennaf

8 o'r gloch

Gwin a Chaws, Adloniant, Arddangosfa, Lluniau ar werth

Mynediad: £2.00
Dan nawdd y Pwyllgor Celf a Chrefft.

## GAIR O'R PWYLLGORAU

O hyn i Eisteddfod yr Urdd neilltuir gofod i holl bwyllgorau'r Ŵyl yn eu tro. Yn y rhifyn hwn cawn gyfraniad gan bwyllgor sy'n allweddol i lwyddiant pob ymdrech sef y Pwyllgor Cyllid.

A ninnau o fewn blwyddyn i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch gofynnwyd am adroddiad oddi wrth y Pwyllgor Cyllid i'r Dinesydd.

Pan baratowyd yr amcangyfrifon cyntaf yn nechrau 1983 roeddynt yn rhagweld y byddai cost cynnal yr Ŵyl oddeutu £180000, gyda'r angen am gasglu cronfa o £65000 yn lleol. Dechreuwyd ar unwaith gyda'r cynllun Cyfamodi, ac mae'r ymateb i hwnnw yn werth ychydig llai na £20000 i'r gronfa.

Pryd hynny, y bwriad oedd cynnal yr Eisteddfod ym mhafiliwn Gerddi Soffia, yn hytrach na yn y babell arferol. Er fod to'r pafiliwn wedi cwympo o dan bwysa'r eira mawr, bwriad Cyngor y Ddinas oedd ei ail-godi. Yn ddiweddarach penderfynwyd peidio a gwneud hynny. Rhaid felly fyddai llogi pabell, ac 'roedd hynny'n ychwanegu £20000 tuag at yr

amcangyfrifon gwreiddiol, a bu raid cynyddu nod y Gronfa Leol i £85000.

Rhanwyd talgylch yr Eisteddfod i'w gwahanol ardaloedd gan roi nod ariannol i bob ardal. Gwaith anodd a diflas a fu i ysgrifenyddes y pwyllgor i geisio cael rhai i ymgymryd a'r gwaith yn y Cymunedau; ond fe lwyddodd ac erbyn hyn mae pob Cymuned wrthi'n brysur yn casglu i'w cronfa trwy wahanol weithgareddau. Mae rhai wedi cyrraedd eu nod eisioes ac eraill ddim ond megis dechrau. I'r naill gofynwn iddynt ddal ati a'r llall - brysiwch! mae'r amser yn brin!

Gwaith cyntaf y mwyafrif o bwyllgorau'r Eisteddfod oedd paratoi'r Rhestr Testunau, ond aethant ati hefyd i godi arian. Derbyniwyd cyfraniadau cyson gan Bwyllgor y Dysgwyr ac maent wedi cyfrannu yn agos i £3000 hyd yn hyn. Cafwyd swm cyffelyb trwy law y Pwyllgor Cerdd gyda rhagor i ddod o Gyngherddau'r Cyhoeddi. Mae'r Pwyllgor Celf a Chrefft wedi casglu dros £1700, ac mae'n debyg fod yn agos i £2000 i ddod oddi wrth y Pwyllgor Stiwardio, fel canlyniad i'r Cinio a Dawns a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Neuadd y Ddinas. Mae gwerth dros £5000 o nwyddau, a drefnwyd gan y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd, wedi eu gwerthu, ac os bu unrhyw amheuaeth am Byrti Bws yn ennill ei blwyf, diflanodd y rheiny pan welwyd ymateb plant Cymru tuag ato yn Eisteddfod Yr Wyddgrug. Engreifftiau a roddwyd a diolchir i'r holl Bwyllgorau am eu gwaith dyfal yn y maes ariannol. Daliwch chithau ati!

Mae ysgolion a chymdeithasau ardal yr Eisteddfod yn cyfrannu'n hael i'r gronfa, nid yn unig yn ariannol ond hefyd trwy eu cydweithrediad parod bob amser. Derbyniwyd £1500 oddiwrth Ysgol Gyfun Glantaf, ac yn sicr rhaid yw nodi cyfraniad arbennig Ysgolion Cymraeg Y Wern a Melin Gruffydd. Daeth y ddwy ysgol yma at eu gilydd i drefnu cyngerdd gan artisiaid byd-enwog yn Neuadd Dewi Sant ym mis Chwefror eleni. Fel canlyniad, trosglwyddwyd £4250 i'r Eisteddfod. Mae diolch y Pwyllgor Cyllid yn fawr iddynt, nid yn unig am gyfraniad mor anrhydeddus, ond am godi calon pawb pan oeddem yn dechrau digaloni. Derbyniwyd siec o £1000 oddi wrth Clwb Canna, a hyfryd yw sylweddoli fod cymaint yn cael ei wneud mor ddistaw a di-lol dros yr Eisteddfod.

Golyga hyn oll ein bod wedi cyrraedd dros hanner ffordd tuag at y nod o £85000.

Dengys yr amcangyfrifon eitem o £30000 oddi wrth Gynghorau ac Awdurdodau Lleol, gyda'r gobaith i'r rhan helaeth ddod oddi wrth Cyngor De Morgannwg a Chyngor y Ddinas. Cysylltwyd a hwy ar y dechrau gan feddwl y byddai'n haws ganddynt gyfrannu dros gyfnod o fwy nac un flwyddyn ariannol. Yn ystod y dyddiau diwethaf cafwyd addewid am £15000 gan Gyngor y Ddinas. Diolch iddynt. Ni chafwyd addewid o swm arbennig gan y Sir hyd yn hyn, a teg yw nodi fod yr ansicrwydd ynglyn ar eitem yma yn achosi peth gofid i'r Pwyllgor Cyllid.

Mae Caerdydd a'r Cylch yn gyfoethog mewn diwydiant a masnach. Eisioes cafwyd rhai cyfraniadau a rhai addewidion o'r ffynhonell yma. Bwriedir cysylltu a rhan helaeth o'r gweddill yn ystod y misoedd nesaf a'u hanogi i'n cefnogi trwy nawdd neu roddion.

Ychydig dros ddeng mis sydd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch. Mae llawer i'w wneud i sicrhau llwyddiant ariannol yr Ŵyl. Fe ellir dweud mai nid yn ariannol yn unig y mae mesur llwyddiant Eisteddfod, ond cofier mai ar atyniadau'r maes a rhaglen yr Ŵyl y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Cyllid docio os na fydd yr arian ar gael. Dywedodd ein cyfeillion yn Yr Wyddgrug fod y ffaith eu bod wedi mynd dros eu nod ariannol wedi eu galluogi i ychwannegu a gwella yr adrannau hynny. Gobeithio y gallwn ninnau ddweud yr un fath mis Mai nesaf. Ar ran y Pwyllgor Cyllid, diolch i bawb.

GLYN JONES,
Ysgrifennydd Ariannol.

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*

**TAFLEN**

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn).

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.

# TORTH O FARA

Hoffwn dynnu eich sylw y mis yma at ran o waith pwysig y Swyddfa Masnach Teg a'r Adran Safonau Masnach. Efallai nad ydych yn gyfarwydd â'r ddau gorff yma ond mae ganddynt gyfrifoldeb pwysig i geisio gwneud yn siŵr nad ydym ni fel pwrcaswyr yn cael cam.

Sefydlwyd y Swyddfa Masnach Teg fel asiantaeth y Llywodraeth i gadw golwg ar faterion masnach ym Mhrydain ac i amddiffyn pwrcaswyr a phobl busnes rhag ymarferion annheg. 'Dydy'r swyddfa yma yn Llundain ddim yn delio â phroblemau unigol ond un o'i gweithgareddau yw cyhoeddi pamffledi i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ynglŷn â'u hawliau cyfreithiol.

Efallai nad ydych erioed wedi cael rheswm i gwyno am unrhyw beth yr ydych wedi ei brynu neu unrhyw wasanaeth 'rydych wedi ei gael. Ond tybed a fyddech yn gwybod lle i fynd neu beth i'w wneud petaech wedi prynu rhywbeth oedd yn ddiffygiol neu gael gwasanaeth sâl ac wedi methu cael boddhad wrth fynd â'ch cwyn i'r gwerthwr neu'r person roddodd y gwasanaeth i chwi?

Dyma'r pryd y gallwch gael cymorth gan yr Adran Safonau Masnachu neu'r Canolfan Cynghori Lleol. Mae swyddfeydd gan y ddau gorff yma yng Nghaerdydd; rhoddant gyngor a help am ddim.

Mae'r Adran Safonau Masnachu yn gwneud yn siwr fod masnachwyr yn cydymffurfio â gwahanol ddeddfau sy'n gwarchod buddiannau cwsmeriaid.

Os y teimlwch eich bod wedi cael eich twyllo â'r rhain y dylech gysylltu gan eu bon't ar eu gwyliadwriaeth am ddulliau gweithredu annheg neu fasnachwyr diegwyddor. Cydweithiant yn glos â'r Swyddfa Masnach Teg. Mae Swyddfa'r Adran Safonau Masnach yn Stryd Tredegar ar gyfer y Farchnad agored.

____ ____ ____

Ceir Canolfan Cynghori Prynwyr yn Kingsway. Yno ceir staff a all nid yn unig ddelio â phroblemau a chwynion, ond gallent hefyd roi cyngor cyn-siopa i'ch helpu i benderfynu pa gynhyrchion sydd orau at eich pwrpas neu i'ch helpu i gael gwerth eich arian.

Mae un o'u pamffled wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg sef 'Unioni Cam'. Gofynnwch am gael y gweddill ohonynt wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg - ni chant eu cyfieithu os yw'r Swyddfa'n meddwl nad oes galw amdanynt. Mae pob taflen yn delio â gwahanol bwnc gan gynnwys - prynu car newydd neu ail law, prynu dodrefn, esgidiau, nwyddau trydan, gwydredd dwbl, archebu gwyliau, sut i ddelio gyda gwerthwyr sy'n mynd o ddrws i ddrws; ffotograffiaeth, prynu trwy'r post, cael dillad wedi eu sychlanhau, gwelliadau i'r cartref (cyhoeddiad newydd).

# SAFIAD GODRE'R GARTH



Gan na fydd yn bosibl i'r Dinesydd rannu yn llwyddiant Côr Godre'r Garth yn Llangollen eleni, oherwydd eu safiad yn erbyn cysylltiadau'r Eisteddfod honno â De Affrig, pleser o'r mwyaf yw cael cofnodi, ar ddu a gwyn, eu llwyddiant ysgubol mewn cystadleuaeth arall, sef Cystadleuaeth Côr y Flwyddyn a noddwyd gan Sainsbury's. Fe'u dewiswyd, ynghyd â chôr arall, i gynrychioli De Cymru yn ail rownd y gystadleuaeth i'w chynnal yn Neuadd Dewi Sant ym mis Tachwedd.

# DIWEDD TYMOR Y CYMRIC

Erbyn cyhoeddi rhifyn nesaf 'Y Dinesydd,' bydd tymor peldroed newydd eisioes wedi cychwyn, ond mae yna fymryn bach o waith crynhoi ar dymor 1983/84 cyn ei yrru i ebargofiant.

Ers diwedd y chwarae ar y maes ym mis Ebrill cafwyd cinio, cyfarfod gwobrwyo a chyfarfod cyffredinol.

Ond yn gyntaf beth am grynhoi'r tymor ar y cae. Llwyddiant? Do. Dyrchafiad? Naddo. Mwynhad? Do, digonedd.
Sut mae mesur llwyddiant tybed? Wel, ystyriwch i'r tim cyntaf gyrraedd y pydwerydd safle yn y gyngrair gan ennill pedair-ar-ddeg allan o'r pedair ar hugain o gemau a chwaraewyd, a chael cyfanswm o 30 o bwyntiau. Ystyriwch i'r ail dim gadw eu safle yn eu cyngrair hwythau.



Enghraifft glasurol o 'youth and experience'! - sêr Clwb Cymric am 1983/84.

Beth am uchafbwyntiau ynteu? Ambell un sy'n dod i'r cof ar unwaith, ond dim un na roddodd fwy o foddhad na buddugoliaeth yr ail dim o ddeuddeg gôl i un. Isafbwyntiau tybed? Cyd-chwarae anhygoel o gelfydd (a gwael) 'Haggler' Huws â'r 'Marx' yn y gôl, a chosfa o bymtheg gôl i un i'r ail dim bythefnos cyn y fuddugoliaeth a grybwyllwyd uchod.

Cynhaliwyd y cinio blynyddol a chyfarfod gwobrwyo'r Clwb yng Nghlwb B.P. Plastics yn Sully, y cyfan wedi ei drefnu gan Hefin a Martin yn destlus iawn. Prif atyniad y noson oedd enwi chwaraewyr y flwyddyn am eleni, ac nid oedd yn syndod o gwbl mai dau a oedd eisioes wedi eu dewis o'r blaen a gafodd eu gwobrwyo unwaith yn rhagor.

Megis hen win, sy'n troi'n finegar gydag oedran, dewiswyd Cen Cartŵn yn Seren yr Ail dim, a chadwodd Huw Prichard ei afael ar y tlws a enillodd y llynedd fel Seren y tim cyntaf. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt. Huw Prich, ynghyd a'ch gohebydd oedd prif sgorwyr y tim cyntaf gyda deunaw gôl yr un, a chafodd Richard Parsons yntau yr un nifer ar ran yr Ail Dim. Gwobrwywyd yn haeddiannol ddigon hefyd, y ddau gapten, sef Elwyn (Cae Canol) a Twics am eu gwaith trwy'r tymor.

'Roedd brwdfrydedd yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol hefyd, a wele isod restr o'r swyddogion am dymor 1984/85.

Cadeirydd: Rhodri Gwynn Jones.
Ysgrifennydd: Wyn Roberts.
Ysgrifennydd (2ail dim): Twics.
Trysorydd: Elwyn Roberts.
Capten (tim cyntaf): Huw Dafis.
Capten (ail dim): Twics.
Is-gapten (tim cyntaf): Elwyn Roberts.
Is-gapten (ail dim): Richard Parsons.

Trefnwyr Adloniant:
Martin Hopwood, Emyr Roberts.

Dymuniadau'r gorau'r Clwb i Huw Dafis a Hefin Rowlands a fydd yn dechrau'r tymor nesaf yn berchen gwragedd - mae'r ddau yn priodi yn ystod mis Awst!

Yn olaf, diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Clwb trwy'r blynyddoedd, yn wragedd, yn blant ac yn chwaraewyr - fyddai yna ddim Clwb heb y teulu'n gyflawn. Cofiwch os oes unrhyw un a diddordeb mewn dangos eu medr ar y maes, yn hen, ifanc neu ganol oed, neu hyd yn oed 'run oed a Cen, yna cysylltwch ac unrhyw un o'r swyddogion, neu dowch i Faes Llandaf ar Nos Fawrth wedi'r 'Steddfod. Mae 'na ddisgwyl eiddgar amdanoch.


**CANOLFAN YR URDD, CAERDYDD**

YN EISIAU AR GYFER MIS MEDI

1. YSGRIFENNYDDES
i weithio 9 awr yr wythnos

2. CYNORTHWYDD
i weithio 2½ awr bob nos Lun

3. CYNORTHWYDD
i weithio 2½ awr bob nos Wener

**MANYLION PELLACH ODDIWRTH:**

**ALAN GWYNANT, CANOLFAN YR URDD, HEOL CONWY, CAERDYDD. FFÔN: 36201**

A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan

**GWENAN**

**CAERDYDD 732233**

Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.

"AI POBL SY'N CAEL EU CADW YN FORT KNOX?"

Pwy, dybiech chi, sy'n cael eu gorfodi i ateb cwestiwn mor anobeithiol o dreiddgar? Pwy, feddyliech chi, sy'n ildio oriau o'u hamser prin i wynebu'r fath ymosodiad? Pwy, yn wir, ond Cymry Cymraeg y Ddinas?

Y syniad yw fod timau o dri yn cyfarfod yng nghlwb Ifor Bach i herio'i gilydd mewn cyfres o gwisie "knockout". A'r bwriad yw fod pob cystadleuydd yn cael ei noddi am bob rownd a enillir. Ond prin yw'r cystadleuwyr hynny sy' wedi deall y system - hyd y gwela i "whipround" cyflym yw hi ar ddiwedd y sioe!

Ond, ys dywed rhywun rhywle - "Toes 'na sbort i'w gael", a hynny greda i yw hanfod y cwisie hyn; ma nhw'n sbort. Does ond obeithio ga' i fadd-euant am ddweud hynny gan ambell dîm sy'n gwbl o ddifri yn eu cwêst i ennill.

Hyd yn hyn cafwyd sgŵp gan "Ferched y Wawr" yn curo newyddiadurwyr, profiadol, effeithiol "H.T.V.", (fe gaiff Russell,Chris a Rhodri ddiolch i mi eto am y geiriau maldodus). Gwelwyd tîm y BBC yn gwingo dan lach yr "Ymgyrch Niwclear", (dim digon o fin ar arfau Emyr, Pws a Graham). Gwnaeth "Y Dinesydd" fawr gwell yn erbyn ymosodiad di-drugaredd "Gwasg Prifysgol Cymru", (doniau Mallt a'r ddau Rhodri yn cael eu cywasgu 'tanna). Ac amynedd barodd i dîm Pwyllgor yr Urdd, Penylan dan arweiniad Alun Davies guro Undeb y Tancwyr - hwythau'n colli o naw "peint" yn hytrach na naw pwynt!

Hyn i gyd yn cael ei lywyddu gan aelodau oes o Glwb Ifor Bach: Owen John Thomas yn arddangos arddull hamddenol braf.

Cwestiwn: Pryd ymddangosodd y stamp gynta?

Ateb Tim A: 1900.

Owen John: Digon agos.

a Thim B yn gwybod yn iawn mai'r "Penny Black" oedd y stamp gynta yn 1940! Glyn Huws, wedyn, a'i arddull tra wrthgyferbyniol yn cosbi timau'n llym am enllibio'i gilydd.

Bellach mae'r rowndiau go-gynderfynol ar y gweill ac mae'r cystadlu yn amlwg ddifrifoli gyda sawl ateb gwefreiddiol yn dod o ambell gystadleuydd a minne'n cael trafferth deall y cwestiwn!

Cynhelir y rwond derfynol yn y Clwb ar Nos Lun, Gorffennaf y 9fed. Beth am droi mewn i gefnogi'r time ac ymuno yn yr hwyl?

O.N. Be' sy'n cael ei gadw yn Fort Knox?

# Y GOLOFN GAIN

Sylwaf imi fod wrthi yn llunio'r golofn hon ers Mis Medi 1980. Ar hyd y blynyddoedd bu beirdd y ddinas a'i chyffiniau yn barod iawn eu cymwynas â mi, a gellais osgoi cynnwys fy stwff i fy hun ynddi. Y tro hwn, fodd bynnag, 'rwy'n gobeithio y caf faddeuant am gynnwys y gerdd fach hon a luniais llynedd ar gyfer cystad-leuaeth Bwrlwm Bro yn Eisteddfod Llangefni.

AFON TAF.

Afon â'i halaw'n llifo, afon bur,
afon bert yn pyncio
'n bêr ei hiaith ar hyd ein bro
fu hon nes ei difwyno.

Hydreiddiodd y budreddi yn ddüwch
anaddawol drwyddi;
gan chwerwedd llygredd ei lli',
difwrlwm ei diferli'.

Â hithau yn llifo'n llonydd, lluniau
hen ben llanw ei cynnydd
yn stribedi siabi sydd
yn glynu hyd ei glennydd.

Dreng afon, un fudr anghyfiaith, yw Taf,
eto hyn yŵ'n gobaith;
y daw, â'i halaw eilwaith
yn y tir, yn bert ei hiaith.

a pharabl hoff y werin i'w glywed
yn gloywi'i chynefin
am mai'i hiaith sydd ar ei min
yn iach wyrthiol yn chwerthin .

Bellach aeth yn hen bryd imi roi llonydd i'r golofn, ac 'rwy'n falch dros ben fod Emyr Lewis, bardd ifanc y mae gennyf barch mawr iawn iddo, wedi cytuno i ofalu amdani. Wrth leisio fy niolch i'r beirdd a fu'n ei chynnal yn ystod fy nhymor i 'rwy'n mawr hyderu y caiff Emyr yr un teyrngarwch ganddynt. Pob dymuniad da iddo.

TRAED MEWN CYFFRO !

CINIO A DAWNS, NEUADD Y DDINAS, CAERDYDD, NOS WENER, 22 MEHEFIN, 1984 - ER BUDD EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU CAERDYDD A'R CYLCH 1985. MEISTER Y DDEFOD - ARFON HAINES DAVIES.

Beth bynnag fu'r trafod ym mhwyllgor gwaith yr Eisteddfod yr oedd y ddawns ar nos Wener, 22 Mehefin yn ffaith. Heibio Dewi Sant, Llywelyn ein Llyw Olaf, a'n harwyr eraill yn y neuadd farmor, cerddodd y doctoriaid a'r darlledwyr, y cyhoeddwyr a'r cyfreithwyr, y cynhyrchwyr a'r cystadleuwyr, yr athrawon a'r amaethwyr, seicatryddion a'r sosialwyr, y cantorion a'r cyffeswyr, y tynwyr coed a'r tynwyr dannedd, y prif-athrawon a'r penseiri, y gweinidogion a'r gwyddonwyr, yr ysgrifenyddesau a'r ynadon, y cadeiryddion a'r cysylltwyr cyhoeddus, y llywyddion a'r llenorion - oll yno er mwyn yr achos - dawnsiwch er mwyn Cymru, dawnsiwch fel robot er mwyn Cymru!

Yr oedd un o'r cyhoedd yn falch fod Arfon wedi cyhoeddi fod y dawnswyr modern yn perfformio am ddim - byddai'n anodd cael neb i gytuno i'w talu! Maddeuer y darllenydd i mi - dylwn fod wedi esbonio trefn y noson. Wedi i'r cannoedd ymgynull yn y neuadd farmor aethom i mewn i neuadd fawr Neuadd y Ddinas - bendith fer ond effeithiol, bwyd, dawns robotaidd gan fachgen a merch - yna dawnsio am rai oriau dan arweiniad medrus a chyffrous band Coleg Cerdd Cymru.

Dyna steil, dyna sŵn ardderchog sydd gan y band yma. Llamodd y dawnswyr ar eu traed; gyda sigl a swae roedd y ddawns wedi cydio. Noson i'r brenin meddai pawb! Clywyd un llais yn holi beth oedd a wnelo hyn oll a Chymru, Cyd-ddyn a Christ? A werthwyd enaid y mudiad yn y rhuthr pendramwnwgl i fod yn gyfoes? A aeth y babi allan efo dŵr y bath? Dim o gwbl oedd ateb yr arall, y mudiad a elwodd, ac os oedd cannoedd am ddawnsio mewn bo-tei a thocsido neu mewn ffrociau hir-laes lliwgar -
'Be bwys, be bwys, beth yw'r holl ffws,
Yr elw aeth i Berti bws!'

Fe ddawnsiodd cannoedd ar ysgafn droed
Y ddawns hyfrytaf fu erioed;
A Berti Bws yn wên i gyd
Wrth weld y dorf yn mynd ffwl sbîd.

Fe welwyd dyn heb ei fo tei,
Ei enw bedydd e oedd Dei;
Ond daeth Samaritan o Landâf
A bo tei glas, un felfed braf.





Ei gyfflincs ddaeth o'r Wenfô draw,
Rhai gloyw aur fel modrwy i law.
A Mr. Urdd ar flaen y gâd
Yn dawnsio'n llon, ar flaenau drâd.

A ail agorir Glanllyn cyn hir
Yn wersyll dawns i bawb drwy'r tir?

Hyderaf fod y noson wedi gwneud elw mawr. Trefned y ddawns nesaf!

Un a oedd yno.


**LLWYTH o lyfrau da**




LLYFR SÊR MADAM SERA
Llyfr seryddol mwyaf a mwyaf anghredadwy'r iaith! £2.95

CWIS A PHÔS / Hafina Clwyd £2.45
Oriau ac oriau o grafu pen!

CAILO 4 / Dafydd Parri £1.75
O dreialon cŵn defaid i garchar tan-ddaearol.

Y TRÊN OLAF ADREF £2.95
gol. Steve Eaves
Cerddi pop a phrotest grŵpiau cyfoes Cymru.

Cyfres Rwdlan / Angharad Tomos
3. DIFFODD YR HAUL 95c
4. Y DEWIN DWL 95c
Mwy o anturiaethau gwrachod Gwlad y Rwla!

GILMORA / Gilmor Griffiths £2.95
15 o alawon cerdd dant.

STORI DDA / Glyn Russell Owen £1.95
Atgofion newyddiadurwr o Lŷn.

POLICE CONSPIRACY? / John Osmond
Datgelu'r holl stori am Achos Cynllwynio Caerdydd. £2.95

DYMA FI! £2.65
I gofnodi'r baban newydd.

LLIWIA DY WLAD, 1 & 2 95c yr un
Llyfrau lliwio unigryw, Cymreig.

WELCOME TO WELSH / Heini Gruffudd
Cwrs newydd cyflawn, llawn lluniau strip. £1.95

DEWCH I CHWARAE SNŴCER £1.65
Bob Dorkins
Y 3ydd yn y gyfres chwaraeon.

Y CLOC TYWOD / Gwyn Williams £2.95
Nofel feddylgar, wahanol am Gymry yn yr anialwch.

Llyfr Llofnodion CADWGAN £1.75

BATHODYNNAU CADWGAN
8 math newydd sbon. 30c yr un



...ac wrth gwrs
LOL Haf '84
Rhifyn Rhyddid i Ferched 60c
Rhywiaethol! Hiliol!

Y Lolfa Cyf.
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
ffôn (097086) 304
Mynna gopi o'n catalog rhad!

SUSAN THOMAS - GWAITH NEWYDD AR SAFLE HEN WAITH.

Fel mae rhai pobl yn casglu hen lestri neu wydrau, mae Susan Thomas yn casglu hen beiriannau'r diwydiant alcam - gydag ambell i grair pwll-glo neu locomotif cynnar. Dyma rhan o'i gwaith fel cynllunydd Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli, amgueddfa sy'n tyfu heddiw ar safle'r hen felin dur a sefydlwyd ar lannau'r Gwendraeth Fach yn 1737.

Merch i Joan a Ben Thomas, Llandennis Avenue, Caerdydd yw Susan ac ar ôl dyddiau ysgol ym Mryntaf a Rhydfelen (1970-77) a graddio mewn Botaneg yn Ngholeg Caerdydd aeth i weithio'n wirfoddol am flwyddyn yn yr Amgueddfa Genedlaethol. A dyna osod ei throed ar y llwybr sy wedi ei harwain i'w swydd bresennol.

Mae'n rhannu ei hamser rhwng ei swyddfa yn Llanelli a safle'r Amgueddfa lle mae'n arolygu'r gwaith o osod y peiriannau yn eu lle. Prif amcan yr Amgueddfa yw dangos ac egluro'r hen broses llaw o wneud alcam a dyma'r unig un ym Mhrydain i wneud hynny. Chwalwyd llawer o offer y felin gyda'i chau yn y 40 'au a bu ond y dim i'r gweddill ddiflannu i grafangau masnachwr haearn - scrap yn 1974 cyn i Gyngor Llanelli ddod i'r adwy a phrynu'r safle.

Heddiw mae Susan a'i chyd-weithwyr (115 i gyd yn fildars, trydanwyr a chynllunwyr) yn casglu peiriannau o felinau eraill i chwyddo'r casgliad gwreiddiol. Eu nod yw creu darlun byw o'r hen waith a'i effaith ar y gymdeithas o'i gwmpas mewn ardal a fu unwaith yn ganolfan alcam fyd-enwog.

"Nid cof-golofn i ddiwydiant marw yw'r Amgueddfa" meddai



Susan a'i cynllunydd-graffig, Jackie Murphy, wrth ei gwaith(!) yn yr Amgueddfa.

Susan "ond lle i ddod i ddeall a mwynhau".

Er mwyn cwblhau'r gwaith hoffai glywed gan unrhywun sydd â lluniau, offer, dogfennau neu wisgoedd yn ymwneud â'r gwaith a'r ardal. Gellir cysylltu â hi yn Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli, Cydweli. SA174 LW.

Mae rhan o'r arddangosfa ar agor eisoes (mynediad am ddim) ac fe agorir y gweddill ym mis Gorffennaf gyda phris y mynediad yn 60c.

Pob hwyl i Susan a llongyfarch-iadau iddi am fynnu cael pob eglurhad ac hysbyseb yn ddwy-ieithog a'r Gymraeg gyntaf.

---

CYFARCHION O'R GOGLEDD!

Rwy wedi bod yn teimlo ysfa ers tro bellach, a ninnau fel teulu wedi hen gartrefu ym Mangor, danfon gair bach at ddarllenwyr 'Y Dinesydd', ac ar ôl bodio trwy rifyn mis Mai, dyma fi'n cael ysgogiad i roi pin ar bapur.

A minnau wedi bod yn byw yn y brifddinas cyhyd, - tair mlynedd ar hugain i gyd, - er i mi gael fy ngeni ym Mangor a byw yn Llangefni nes yn dair oed, nid peth bach oedd codi gwreiddiau a chychwyn tua'r Gogledd yn ôl. Ond er mawr syndod i mi, ni fûm yn hir cyn teimlo'n gartrefol iawn yng 'nghadernid Gwynedd' gan ddotio at brydferthwch môr a mynydd yma a Chymreictod naturiol y trigolion, ac wedi sylweddoli mai'r un yw'r gweithgarwch yma ym Mangor ag yng Nghaerdydd yn sylfaenol, yn godi arian at 'Steddfod yr Urdd, yn gapela, yn fynychu dramau a sioeau ffasiynnau, ac yn gynhyrchu bapur bro! Wedi'r cwbl, gwlad fechan iawn ydy Cymru, ynte.

Cofiwch chi, mae hi'n dipyn o dasg darbwyllo ambell i Ogleddwr bod mod i Gymro Cymraeg yng Nghaerdydd fyw bywyd cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg, a chwalu ambell i fyth arall poblogaidd ynglŷn â'r Cymro o Gaerdydd.

Yr hyn sydd wedi fy synnu fwyaf yw darganfod cymaint o bobl Caerdydd a'r cylch sydd wedi mudo yma yn ddiweddar. Mi allwn enwi dros ddeg ar hugain ohonynt, mae'n siwr. Bydd yn rhaid sefydlu Cymdeithas Cymry Alltud Caerdydd ym Mangor, cyn bo hir! Ond er cystal bywyd y Fro Gymraeg, rwy'n teimlo'n falch iawn fy mod wedi fy magu yn y brifddinas ac yn teimlo'n ddyledus iawn i bawb a gyfrannodd i greu cymdeithas fywiog, cyflawn a Chymreig yno yn erbyn pob gwrthwynebiad. Hir y parhaed yr heniaith a phethau gorau'r diwylliant Cymreig i ffynnu yng Nghaerdydd, - a brysiwch i'n gweld ym Mangor!

NIA M HUMPHREYS.

# Y SILFF LYFRAU

Gwaith efengylwr o Sais wedi'i drosi i'r Gymraeg yw 'BOB DYDD GYDA IESU'. Daw'r ffurf Gymraeg trwy lafur Arfon Jones, Helen Roberts a Menna ap Tomos.

Mae'r llyfr yn cynnig maes myfyrdod ar gyfer pob dydd trwy'r flwyddyn. Mae'r pytiau yn uniongyrchol ac yn ystyrlon. Mae i'r llyfr thema fisol fel "Mae Teyrnas Nefoedd fel....." a "Rhannu'r Ffydd".

Pwy all elwa? Defnydd rhagorol ar gyfer clwb Cristnogol neu oedfa foreol mewn ysgol. Mae modd yn ddigon rhwydd i ddosbarth Ysgol Sul addasu'r cynllun, ond gwell fyth ei ddefnyddio ar gyfer myfyrdod personol neu ddyletswydd deuluol.

Daeth yr ail gyfrol i law yn ddiweddar - paratoad hwylus am 6 mis i gychwyn ym mis Gorffennaf.

---

Byron Howells PYSGODYN YN Y LLWCH
Tŷ ar y Graig £2.50
BOB DYDD GYDA IESU (addas.)
Tŷ John Penry £1.50
Eddie Jones, Falyri Jenkins
CLAP A CHÂN I DDUW
Y Lolfa £4.50

Mae 'PYSGODYN YN Y LLWCH' yn ein tywys i fyd y Cristnogion cynta. Mae'n agor gyda bachgen bach yn syrthio i mewn i lyn Bethesda. Cadw cyfrinachau, arwyddion cyfrinachol megis marc y pysgodyn yn y llwch. Dyna a gawn ni wedyn.

Perygl ac erlid yw stwff y stori. Wrth gwrs y gŵr dan sylw yw'r Saul a gyfenwir Paul. Cymer y stori ambell ryddid ond y mae hanfodion y stori'n ddiogel. Mae'n llyfr bendigedig fel stori nos da. Mae'r penodau'n ddigon byr i hyn ac y mae sgôp i ddychymyg y fam neu'r tad wrth ddarllen y stori. Felly mae modd defnyddio'r llyfr fel stori gyfres gyda phlant chwech neu saith oed a bydd plant i fyny at 11 oed yn mwynhau ei ddarllen.

Dyma lyfr da hefyd ar gyfer stori diwedd dydd yn yr ysgol gynradd a beth am yr Ysgol Sul?

Mae eisoes wedi ennill gwobr a chlod.

---

I bwy y paratowyd 'CLAP A CHÂN I DDUW'? Clap yn y capel? Sgersli bilif. Nid syndod i mi felly yw gweld taw i blant ysgol Rhydypennau y cyflwynir y llyfr. Ffrwyth creu ac addasu deunydd at bwrpas gwaith yr ysgol bob dydd. Ceir yn y llyfr 74 o emynau bywiog gyda chordiau gitâr a chyfeiliant piano llawn. Yn ychwanegol mae llyfrau â geiriau yn unig i'w cael am 50 ceiniog.

Mae yma nifer o hen ffefrynnau, megis Ebol Asyn, Drummer Boy, a Carol y Cowboi. Mae'n dda gweld nifer dda o emynau sy'n addas ar gyfer Dydd Ewyllys Da. Bydd croeso i hwn gan athrawon ysgolion cynradd ac yn arbennig rwy'n siŵr gan athrawesau ein hysgolion Sul. Clap i'r Lolfa hefyd!

EIRIAN REES.

---


Heini Gruffudd ACHUB CYMRU
Y Lolfa £2.95
W.S.K. Thomas TUDOR WALES
Gwasg Gomer £4.75

Crynodeb yw 'ACHUB CYMRU' o gyfraniad llenorion, addysgwyr, pregethwyr ac arweinwyr eraill y Cymry Cymraeg tuag at hunaniaeth Cymru fel cenedl o ganol y ganrif ddiwethaf ymlaen. Mae cyfeiriadau cyson at bwysigrwydd crefydd fel dylanwad positif, a'r cyfundrefn honno ganrif yn ôl, medd yr awdur, wedi gwneud byd o wahaniaeth i'r genedl erbyn heddiw. Pwnc arall a gaiff dipyn o sylw yw Prydeindod a'i effaith ar y meddylfryd Cymreig, hyd yn oed ar unigolion fel O M Edwards. Pwysleisir cyfraniad llenyddol a diwylliannol mudiad Cymru Fydd er iddo fod yn fethiant gwleidyddol. Trwy ddyfynnu gwaith amryw o bobl, tanlinellir pwysigrwydd Cristnogaeth a heddychiaeth oddi mewn i'r mudiad cenedlaethol.

---

Thema 'TUDOR WALES' yw astudiaeth o fywyd Cymru yn yr 16eg ganrif ac fe geir darlun cytbwys o natur y gymdeithas mewn cyfnod dadleuol yn ein hanes. Mewn pennod ar y Ddeddf Uno pwysleisia'r awdur mai rhoi cydnabyddiaeth swyddogol i newidiadau oedd eisoes yn cymryd lle a wnaeth y mesur, yn hytrach na chyflwyno cyfreithiau newydd ac atgas. Cryfhawyd rheolaeth y brenin drwy amryw ffyrdd er mwyn sicrhau teyrngarwch, cyflwynwyd Saesneg fel yr iaith swyddogol, a chyflwynwyd datblygiadau masnachol. 'Roedd yn gyfnod cythryblus i sefydliadau crefyddol a cheir disgrifiad ac eglurhad o bolisi'r brenin tuag atyn nhw, yn arbennig y mynachdai. Pobl dlawd oedd y mwyafrif ac mae pennod ddiddorol am eu bywydau, eu harferion a'u gwaith - ffermio gwartheg a defaid yn bennaf. Ond dengys yr awdur mai yn y cyfnod hwnnw y cafodd hadau'r Chwyldro Diwydiannol eu hau - drwy ddisgrifio'r datblygiadau cynnar yn y diwydiannau glo, haearn, copr a phlwm.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 44



CROESAIR Y DINESYDD - RHIF 44.

AR DRAWS

1. Torri letys rhwng dau a garcharwyd — a dyna ymgiprys. (12)
8. Giaffar y rigwyr yn colli ei ddynion gorau (gŵyr A1) gan ei adael mewn dryswch yn y man tywyllaf yn y byd. (2,5)
9. Nid coed bythwyrdd yw y rhain. (7)
11. Y fyddin amgylchynnol yn rhoi gorchymyn ynghanol yr adfyd. (7)
12. Adwy wynt yn Sir Feirionnydd. (7)
13. Fe ddarfu gyfrodeddu. (5)
14. Byddys yn llefain ar ôl y plât crwn wrth aros iddo ddod. (9)
16. Hawdd ei gashau? (9)
19. Cynhaliaeth tymor "Coleg"?(5)
21. Mae dwy lythyren ynghanol yr adnod yn help i wybod pwy yw pwy. (7)
23. Mae yno dai wedi mynd yn sarn yn y rhan fechan hon. (7)
24. Llestri'r arogldarth. (7)
25. Gwragedd pendefigaidd. (7)
26. Yn wir flin. (2,6,4)

I LAWR

1. Fel dihiryn os cai ddafn i feddwi. (7)
2. Rhoddodd hi wawch uchel. (7)
3. Mae deg i Ann Griffiths yn gymysg yn yr un amlen. (9)
4. Arwain y gân. (5)
5. Fe wêl un y gwir o'i drosi — nid oes ei debyg. (7)
6. "— —— ryfelwyr" (2,5)
7. Dyn a hesg gwyllt ynghanol y llefrith i gynrychioli gwlad estron. (12)
10. Byddai fy mam yn golchi rhain yn ofalus unwaith y flwyddyn ac yna eu rhoi yn ôl yn y cwpwrdd cornel gwydr. (6,2,4)
15. Nid diogyn, ac eto yn gwrthod gweithio. (9)
17. Stori sy'n hen a chyffrous. (7)
18. Cenhedlaeth dreigledig y Phariseaid a'r Sadwceaid yn ôl Mathew. (7)
19. Mae'n ddydd! (7)
20. Sawl ysgarmes yn codi pan fydd rhywun yn mynd â ffon o gwmpas rhan go arw o Gaerdydd (7)
22. Mi ddof i osod edau wedi'i nyddu ar flaen y felfed.(5)

DATRYSIAD RHIF 43.

AR DRAWS: 1. CYD-DESTUN; 8. AR EI LIWT EI HUN; 11.TREWCH; 12. NEUADD; 13. PIANO; 16.ERNANI; 17. EI CHORN; 18. GWERN; 19. NYRSIO; 20. INDIAD; 21.GWISG; 24. AMSER; 26. HAEDDI; 27. HAWLFREINTIAU; 28.CARNOLION.

I LAWR: 2. YN IACH; 3. DAIONI; 4. SETLWN; 5. UNION; 6. TROEON TRWSTAN; 7. BUDDUGOLIAETH; 9. ATSEINIAI; 10. ADDUNEDAIS; 13. PIGOG; 14. ACERI; 15. OENIG; 22. WEIREN; 23. SISIAL; 25. ROLIA; 26. HWTIO.

CYSTADLEUAETH Y CROESAIR.

Trwy amryfusedd ni chynigiwyd gwbor am Groesair Rhif 43. Er hynny derbyniwyd atebion cywir oddiwrth M. Davies, Fairwood Rd, Llandaf, a B.T. Cyncoed. Chris Powell, Pendwyallt, Yr Eglwysnewydd; Marged Davies, Rookwood Ave., Llandaf.

Fe gynigir tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 am ateb cywir i'r Croesair Rhif 44 yn y rhifyn hwn. Ysgrifennwch eich enw, neu ffugenw, ar ymyl y croesair, a'i anfon erbyn 1af o Fedi, at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.

HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD
563588